

## Pwyllgor Cyngor Cymuned Mawrth 14 fed 2019

### Presennol;

Alun Davies, Gwyn Davies, Arwel Jones Ellis, Idris Roberts, Dafydd Jones, Eirian Roberts

Ymddiheuriadau; Meredydd Ellis, Cyng Wyn Jones

### Côd ymddygiad;

Neb yn datgan cysylltiad neu ddiddordeb mewn unrhywun o eitemau'r agenda

### Cofnodion;

Darllenwyd y cofnodion Gwyn Davies yn cynnig ei bod yn gywir gyda Idris Roberts yn cefnogi. Ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

### Materion yn codi o'r cofnodion:

Darllenwyd ymatebi yn ymwneud a ffordd Pant Glas

### Arian

Edrychwyd ar y daflen arianol i fyny at heno ac roedd popeth yn ei le

Bydd BDO yn cyrraedd cyn hir gyda amryw o gwestiynau, popeth yn ei le heno, bydd y daflen arianol yn mynd i J LI Hughes (cyfrifydd) iddynt i'w archwilio yn fewnol yn syth pan ddaw statement o'r banc ar ddiwedd y mis

Edrychwyd ar sefyllfa arianol y cyngor, popeth yn ei le  
Aethpwyd trwy y rheolau cyllid a chael fod popeth mewn trefn.

Cafodd asesiad risg o'r rheolau sefydlog eu mabwysiadu

Mae dau o aelodau y pwyllgor yn arwyddo pob siec cyn iddi gael ei thalu

Nid oes dyled.

Mae y Cyngor yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau statudol

Bydd dyddiad ar gyfer archwilio y Cyfrifon ym mis Mai

Edrychodd y Cyngorwyr dros yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le yma.

Mabwysiadwyd y Côt ymddygiad

Trafodwyd polisi gweddillion yr arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, Bydd yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf fel sydd yn digwydd yn flynyddol.

Soniwyd am y Côt ymddygiad, mae hwn yn cael ei fabwysiadu ar gyhwyn pob tymor newydd a phan fydd Cyngorwyr newydd yn cael ei benodi.

J Llywelyn Hughes yw yr archwiliwr mewnol.

Alun yn cynnig y dylai talu yr isod gyda Idris yn cefnogi

Biliau i'w talu

Aelodaeth un Llais cymru £30

Bil am dalu am gyfrestru y Neuadd byth wedi cyrraedd, ei dalu pan ddaw a fod popeth yn gywir

Dyddiad y cyfarfod nesaf Mai 16 2019

UFA

Englyn wrtj y cwt cwch ger llyn Conwy angen sylw.  
Gweddi Pysgodwr yw yr englyn  
Dafydd am ffendio allan gyda phwy i gysylltu a phwy sydd yn gyfrifol amdani

2